

Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

RHYBUDD STATUDOL

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ynys Môn:

Fod Cyngor Sir Ynys Môn ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynyddu capasiti Ysgol y Graig(sydd yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg ac sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle ger yr Ysgol y Graig bresennol Llangefni, LL77 7LP ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed) i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn (Talwrn, Ynys Môn LL77 7TG sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn), a chau Ysgol Talwrn .

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn (www.ynysmon.gov.uk)

Cynigir gweithredu'r cynnig ar y 1 Medi 2021. Bydd Ysgol y Graig fydd wedi cynyddu capasiti yn ysgol gymunedol , a Cyngor Sir Ynys Môn (yr awdurdod lleol) fydd yr awdurdod derbyn.

Rhif mynediad yr ysgol gynradd newydd fydd 68 ar gyfer y flwyddyn ysgol gyntaf bydd y cynigion yn cael eu gweithredu. Bydd y meithrin yn darparu lle i 68 o blant ar sail rhan amser. Capasiti'r ysgol fydd 480 disgybl.

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn y flwyddyn cyn i'r adeilad newydd agor yn trosglwyddo i'r ysgol cyfrwng Gymraeg fydd wedi ei ehangu, yn amodol ar ddewis y rhieni. Bwriedir trefnu cludiant i'r ysgol gynradd fydd wedi ei ehangu o ddalgylch bresennol Ysgol Talwrn yn unol a polisi cludiant y Cyngor.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 10 Chwefror 2019. Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Rheolwr Rhaglen, Gwasanaeth Trawsnewid, Pencadlys y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW.

Arwyddwyd



ARWYN WILLIAMS (Pennaeth Dysgu)
Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad – 14 Ionawr 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad, yn hytrach, ymgais ydyw i gynnig eglurhad)

Rhybudd Statudol yw hwn sy'n dweud y bydd capasiti Ysgol y Graig yn cael ei gynyddu, Ysgol Talwrn yn cau a'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol y Graig . Bydd Ysgol y Graig yn parhau i fod yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg erbyn 1 Medi 2021 ar y cynharaf.